**ARGYMHELLION CYFARFOD Y DIGWYDDIADAU**
**A GYNHALIWYD AR 21ain o Orffennaf 2025 7PM**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths (Cadeirydd, ***am y Cyfarfod hwn***) (Ar-lein)

Peter Jones

David Meirion Jones

Morwenna Pugh

Mark Thomas (Ar-lein)

Sioned Graham-Cameron (Clerc y Dref)

Ellen Pugh (Dirprwy Glerc y Dref)

***Cafodd y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths ei enwebu a'i benodi'n Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod, ar ôl i Gynghorydd Morwenna Pugh ymddiswyddo fel Cadeirydd. Cynigiwyd hyn gan y Cynghorydd Troy Mclean ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Morwenna Pugh a chytunodd pawb.***

**1. Derbyn Ymddiheuriadau**
Derbyniodd y Pwyllgor ymddiheuriad gan y Cynghorydd Troy Mclean, Gareth Glyn Davies ac Dewi Prysor Williams.

**2. Datganiad Buddiant Personol**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant personol.

**3. Trafod Hwyl yn y Parc, 2025**

Cynigiodd y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths y dylai'r pwyllgor gynnal cyfarfod safle'r wythnos hon. Cytunodd gweddill y pwyllgor, a chadarnhawyd y byddent yn cwrdd nos Fercher am 6 o'r gloch.

Trafodwyd rhai tasgau y mae angen eu cwblhau, megis cymryd mesuriadau, cynllunio'r lluniau gosod, a materion cysylltiedig eraill.

Cadarnhaodd y Dirprwy Glerc ei bod wedi bod mewn cysylltiad â phawb sy'n dod i'r digwyddiad i gadarnhau'r dyddiad a'r amser, ac i sicrhau eu bod dal i fwriadu dod. Hefyd fod yr Ysgol wedi cadarnhau fod y Cyngor yn cael defnyddio'r safle tarmac a'i thir.

Trafododd y Pwyllgor hysbysebu i annog pobl i ymuno â'r gwerthiannau ar y bwrdd, ac yn gofyn i'r Clercod ddechrau hyrwyddo'r digwyddiad ar y cyfryngau cymdeithasol.

Cadarnhaodd y Dirprwy Glerc fod y baneri mawr wedi'u harchebu ac roedd yn aros am hysbysiad o'u cwblhau.

Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Clercod gysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn am gau dros dro adran o'r maes parcio wrth fynedfa'r parc, er mwyn galluogi mynediad i bobl ac i sicrhau mynediad i wasanaethau brys os bydd angen.

**4. Trafod Diwrnod Agored Perllan Gymunedol Pant-Yr-Ynn**

Cadarnhaodd y Clerc fod gan y Cyngor yswiriant atebolrwydd cyhoeddus i gwmpasu'r digwyddiad, ond y byddai angen i'r Pwyllgor roi caniatâd i'r Clercod fwrw ymlaen â'r archwiliad ROSPA. Cadarnhaodd hi mai £2,187.60 fyddai'r gost.

Trafododd y Cyngor yr archwiliad, a theimlai rhai Cynghorwyr, oherwydd y llyn, fod yr archwiliad yn angenrheidiol fel rhagofal. Cynigiodd y Cynghorydd Morwenna Pugh y dylid bwrw ymlaen â'r archwiliad, a chefnogwyd hyn gan y Cynghorydd Mark Thomas.

DRAFT

Gan nad oedd y Pwyllgor yn unfrydol oherwydd y gost fawr o ran yr archwiliad, rhoddwyd y cynnig i bleidlais. Dangosodd y bleidlais fod mwyafrif y Cynghorwyr o blaid.

Cadarnhaodd y Clercod y byddai taflenni ar gyfer y Diwrnod Agored yn cael eu rhoi i'r Heddlu i'w dosbarthu i'r trigolion.

Cadarnhawyd y byddai'r Diwrnod Agored yn dechrau am 1:00 p.m.

Cytunodd y Cynghorwyr rhyngddynt eu hunain pwy fyddai'n bresennol.

Cadarnhaodd y Clercod y byddai bwyd yn cael ei gadw ar gyfer y digwyddiad.

**Daeth y cyfarfod i ben 7:03PM**

DRAFFT